Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru

Ward Cybi

Llyfryn Gwybodaeth i Ymwelwyr

Ymddiriedolaeth GIG
Gogledd Orllewin Cymru
North West Wales
NHS Trust

Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn ar eich cyfer chi, deulu a ffrindiau'r claf yn Ward Cybi. Rydym yn sylweddoli nad y claf yn unig sy'n cael ei effeithio gan y sefyllfa hon – rydych chithau hefyd.

Uned Gofal Dwys Ysbyty Gwynedd yw Ward Cybi. Mae yno wyth gwely ac mae'n derbyn cleifion sy'n dioddef o wahanol gyflyrau, gan gynnwys:-

- Problemau yn ymwneud ag anadlu
- Methiant yr arennau a'r iau
- Anafiadau difrifol, gan gynnwys:
  - Y Galon
  - Yn dilyn llawdriniaeth fawr
    Anafiadau Pen
    Damweiniau Ffordd
    Damweiniau Mynydd a Môr

Mae Ward Cybi yn rhoi triniaeth a gofal i bobl sy'n ddifrifol wael neu wedi eu niweidio'n ddrwg; mae hefyd yn darparu monitro gofalus o gleifion sy'n dioddef o gyflyrau ansefydlog, na ellir eu rhagweld. Dim ond mewn wardiau arbenigol y mae'r math hwn o fonitro a chefnogaeth ar gael.

Mae gan y ward dimau o staff sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig, yn cynnwys meddygon, nyrsys, technegwyr a ffisiotherapyddion, i gyd â phrofiad o ofalu am gleifion gwael. Mae un nyrs ar gyfer pob claf, a phrif weinydd(es) â gofal dros yr uned.

Teimlwn eich bod chithau hefyd yn rhan hanfodol o'r tîm sy'n gofalu am yr un sy'n annwyl i chi.

Staff meddygol

Tîm o feddygon, yn cynnwys ymgynghorwyr ac arbenigwyr, sy'n gofalu am gleifion Ward Cybi. Natur problem y claf, all fod yn gymhleth ac all newid yn ystod y salwch, fydd yn penderfynu pa feddygon fydd yn ymwneud yn benodol ag unrhyw achos.

Uwch feddyg sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd ac mae ef/hi'n ymgynghori'n helaeth â'r tîm llawn yn ôl yr angen.

Ef/hi sy'n gwybod orau am eich perthynas a bydd yn rhoi gwybodaeth i chi ar gyfnodau priodol. Bydd y nyrs sy'n gofalu am eich perthynas hefyd yn rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i chi. Os hoffech chi siarad â'r meddyg, gofynnwch i'r nyrs sy'n gofalu am y claf i wneud y trefniadau angenrheidiol os gwelwch yn dda.

Yr anaesthetwyr yw'r meddygon sy'n ymwneud fwyaf â chleifion Ward Cybi o ddydd i ddydd. Fodd bynnag mae ymgynghorwyr o arbenigeddau eraill yn ymwneud â hwy hefyd.

Beth i'w ddisgwyl

Mae Cybi'n defnyddio llawer iawn o dechnoleg fodern. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt oleuadau ac arddangosiadau. Maent hefyd yn gwneud sŵn. Cofiwch fod y peiriannau hyn yno i gynnal y claf ac i helpu i fonitro a gofalu amdano/i.

Efallai bydd nifer o diwbiau wedi eu cysylltu â'r claf. Mae gan y tiwbiau hyn swyddogaethau gwahanol. Pan fo pobl yn methu bwyta, yfed neu gymryd meddyginiaethau, efallai bydd angen ffordd wahanol o'u rhoi iddynt. Efallai bydd cleifion angen hylifau drwy'r gwythiennau ar gyfer maeth a thrallwysiad, a meddyginiaethau i newid neu gynnal pwysedd gwaed, i gynnal gweithrediad y corff neu adfer cydbwysedd cemegol y corff.

Efallai y caiff tiwbiau eraill eu rhoi i mewn i fesur yn ofalus faint ac ansawdd hylifau'r corff. Yn aml fe welwch diwb sy'n mynd i mewn i'r trwyn ac yn ymestyn lawr gwddf y claf i'r stumog, ac yn aml iawn bydd tiwb yn y bledren i ddraenio'r wrin. Efallai hefyd bydd yno diwbiau draenio llawfeddygol a thiwbiau'n gysylltiedig â pheiriant anadlu. Rhoddir ffisiotherapi yn ôl yr angen.

Mae rhai cleifion yn anymwybodol, neu'n hanner ymwybodol oherwydd eu cyflwr corfforol neu'r meddyginiaethau sy'n cael eu rhoi iddynt. Ni fydd llawer iawn o ddillad yn gorchuddio'r claf fel rheol. Y rheswm dros hyn yw fod rhaid i ni weld a theimlo croen y claf, edrych ar yr anadlu a gwneud archwiliadau corfforol yn aml. Gwneir pob ymdrech i barchu preifatrwydd ac urddas y claf.

Cyfathrebu

Mae'r nyrsys yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth gan mai hwy sy'n treulio'r rhan fwyaf o'r amser gyda'r claf – yn gwneud asesiadau aml ac yn gweithredu cynllun gofal.

Ceisiwch ddod i adnabod y nyrs-erchwyn-gwely o bob shifft. Peidiwch â bod ofn dweud eich pryderon wrthynt, rhannu eich dealltwriaeth o'r claf, gofyn iddynt sut y gallwch helpu i ofalu am yr un sy'n annwyl i chi.

Gadewch i'r claf wybod eich bod yno. Hyd yn oed os nad ydynt mor effro ag arfer, gall llais cyfarwydd fod yn gysur. Peidiwch â bod ofn cyffwrdd â'r claf neu siarad â'r claf. Os oes ofn yr holl offer arnoch, gofynnwch i'r nyrs am gyfarwyddyd.

Efallai y bydd adegau pan na allwch fod wrth erchwyn y gwely, er enghraifft:

- Efallai fod y meddyg yn archwilio'r claf.
- Efallai fod y nyrsys yn gofalu am y claf ac yn arsylwi.
- Efallai fod argyfwng meddygol sy'n gysylltiedig â chlaf arall ac na chaniateir unrhyw un i ymweld
- Efallai fod y claf yn gorffwys a bod well iddo/iddi gael llonydd.

Bydd y staff yn ceisio ateb gofynion pob claf a theulu. Cofiwch mai gofal y claf sydd bwysicaf ac efallai y bydd hynny weithiau yn golygu na allwch weld yr un sy'n annwyl i chi mor aml ag y byddech chi'n ei hoffi.

Er mwyn glendid, ni chaniateir blodau yn yr uned.

Nid ydych ar eich pen eich hun

Gall cael rhywun sy'n annwyl i chi yn Ward Cybi fod yn brofiad hynod o anodd ac yn straen mawr i bawb. Torrir ar eich trefn arferol

gan eich tynnu oddi wrth eich cyfrifoldebau dyddiol.

Fodd bynnag gall rhannu'ch profiadau, eich ofnau a'ch pryderon gydag eraill yn yr un sefyllfa fod yn gymorth ac yn gysur. Efallai y canfyddwch fod gan bobl eraill yn yr ystafell aros lawer yn gyffredin â chi ac y gallant eich helpu.

Peidiwch bod ofn mynd at y staff, gofyn cwestiynau, mynegi'ch pryderon neu ofyn am gymorth.

Gall cyflwr claf newid yn gyflym ac y mae wrth reswm yn rhywbeth na ellir felly ei ragweld. Gwneir pob ymdrech gan y staff nyrsio a'r staff meddygol i roi gwybod i berthnasau agos am bopeth sy'n digwydd.

Gofalu amdanoch eich hun yn iawn

Ychydig iawn o bobl sy'n barod am salwch neu niwed i un sy'n annwyl. Mae cymaint o faterion pwysig, ac annisgwyl yn aml, y gallwch eu hwynebu. Efallai y byddwch yn teimlo pob math o emosiynau fel ofn, pryder, dicter, colli rheolaeth, amheuaeth ac euogrwydd.

Mae gofalu'n dda am y claf yn cynnwys gofalu'n dda amdanoch chi'ch hun. Mae gwneud yn siwr eich bod yn bwyta'n iawn, ac yn cael digon o orffwys a chwsg yn bwysig hefyd. Os ydych yn ansicr a ddylech adael ai peidio, trafodwch y mater ag aelod o staff. Cewch eich galw os oes unrhyw newid a bydd y staff yn gwneud eu gorau i ateb eich gofynion.

Nid yw'n hawdd ymweld â rhywun annwyl sy'n ddifrifol wael. Yn ogystal â hyn gall y golygfeydd a welir yn yr uned a'r synau a glywir yno fod yn anodd iawn.

Mae'n golygu cryn ymdrech i reoli'ch emosiynau a chael y nerth i helpu i ofalu am yr un sy'n annwyl i chi ond mae angen cefnogaeth, cysur a gwybodaeth arnoch chi hefyd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Geiriau meddygol y byddwch efallai'n eu clywed

Antibiotics – Cyffuriau a ddefnyddir i ddileu neu reoli heintiau a achosir gan bacteria neu organeddau eraill.

Arterial blood – Prawf gwaed a ddefnyddir i bennu faint o ocsigen/carbon deuocsid sydd yn y gwaed.

Bronchoscopy – Offer â golau sy'n cael ei roi drwy'r geg neu'r trwyn i archwilio'r ysgyfaint, tynnu hylif neu gymryd biopsi.

Cardiac – Yn ymwneud â'r galon.

Cardiac Monitor – Peiriant sy'n cofnodi gweithgarwch trydanol y galon.

Catheter – Tiwb hyblyg yn y bledren i ddraenio'r wrin.

Culture – Sampl o waed/hylif sy'n cael ei phrofi am bacteria neu organeddau eraill.

Dialysis –Dull a ddefnyddir i gael gwared â chynhyrchion gwastraff o'r gwaed pan nad yw'r arennau'n gweithio.

Electrocardiogram – Peiriant sy'n cynhyrchu amlinelliad o weithgaredd trydanol y galon, er mwyn penderfynu a yw'r galon wedi ei niweidio.

Endotracheal tube (ETT) – Tiwb anadlu sy'n cael ei osod yn y corn gwddf drwy'r trwyn neu'r geg i roi ocsigen i'r ysgyfaint, i helpu gydag anadlu neu i dynnu hylif o'r ysgyfaint. Gelwir y broses o osod tiwb endothracheaidd yn "intubation", a'r broses o'i dynnu yn "extubation".

Face mask – Mwgwd a ddefnyddir i roi ocsigen.

Intravenous Infusion (IVI) – Tiwb plastig a osodir yng ngwythïen claf i roi meddyginiaethau, hylif a gwaed.

Isolation - Cadw claf sydd â haint neu mewn perygl ar wahân i gleifion eraill.

Myocardial Infarction (MI) – Trawiad ar y galon

Naso-gastric tube – Tiwb plastig a roir yn y trwyn i ddraenio hylif neu i fwydo'r claf.

Pulmonary – Yn ymwneud â'r ysgyfaint.

Physiotherapy – Clirio'r frest o secretiad, cynnal symudiadau yn y cymalau.

Sepsis – Presenoldeb bacteria neu organeddau eraill yn y gwaed neu feinwe'r corff.

Suction – Ffordd o dynnu secretiad o'r frest.

Tracheostomy – Twll bychan ym mhibell wynt y claf.

Total parental nutrition –Trefn fwydo i mewn i'r wythïen.

Rydym yn gobeithio bod y llyfryn yma o gymorth i chi tra'n ymweld â Ward Cybi. Rydym yn croesawu unrhyw awgrymiadau sydd gennych ynglŷn â gwella gofal a thriniaeth cleifion yn Ward Cybi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â'r:

Uwch Nyrs,
Ward Cybi,
Ysbyty Gwynedd,
Bangor,
Gwynedd
LL57 2PW

Rhif ffôn Ward Cybi: 01248 384244/384436

www.gogleddorllewincymru.org

Yn ychwanegol, rydym yn cynnal arolygon barn perthnasau – mae ffurflenni ar gael i chi eu defnyddio yn yr ystafell aros.

Ysgrifennwyd y daflen gan Nyrs Staff Karen Smith.

Uned Cysylltiadau Corfforaethol, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru

Design2Print:01492 876610